# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Mawrth 28ain, 2018

**Ymateb Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

Deallaf fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn bwriadu cynnal sesiwn graffu gyda CBAC a Cymwysterau Cymru ar ddechrau mis Mai 2018 gyda'r bwriad o drafod darpariaeth gwerslyfrau ac adnoddau dysgu i ddisgyblion sy'n dilyn cymwysterau cyffredinol diwygiedig (TGAU a Safon Uwch) yng Nghymru.   Wele isod sylwadau dwy adran am yr adnoddau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

"O ran **TGAU Hanes** da ni'n hapus gyda'r ddarpariaeth- mae llyfrau cyfrwng Cynraeg wedi cael eu creu ar gyfer y meysydd astudio mwyaf poblogaidd bellach.  Mae hyn wedi bod yn fantais aruthrol i gydfynd gyda'r cwrs TGAU newydd.  Rydyn hefyd wedi derbyn rhwbg 15 ac 20 copi am ddim gan CBAC.  O ran ein dewis o 3 cwrs arholiad mae'r llyfrau wedi cyrraedd mewn da bryd a'r fformat yn bwrpasol iawn ar gyfer y disgyblion.  Ar gyfer y gwaith cwrs o'm dewis mae deunyddiau electroneg yn y Gymraeg ar wefan CBAC hefyd wedi bod yn ddefnyddiol".

"O ran **Astudiaethau Crefyddol** mae gennym bryder am ddiffyg adnoddau Cymraeg i gefnogi'r cwrs Safon Uwch newydd. Cwrs safon uwch wedi cychwyn ym mis Medi 2017 gyda ffocws ar 3 thema - Athroniaeth, Moeseg a Bwdhaeth.  Yr wythnos hon rydym wedi gallu prynnu copi o lyfr Athroniaeth CBAC, trwy gyfrwng Saesneg ond nid yw'r llyfr Moeseg ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg tan ddiwedd mis Ebrill ac mae'r llyfr Bwdhaeth (copi Saenseg yn unig) 'out of stock'.  Fel ysgolion Cymraeg rydym wedi cyd weithio i greu pecynnau gwybodaeth i'r dysgwyr yn ogystal a chyfieithu gwaith ysgolheigaidd. Yn amlwg mae hyn wedi arwain at fwy o bwysau".

Yn gywir

John Hayes (Pennaeth)